CARDIFF UNIVERSITY
PRIFYSGOL CAERDYDD

DATGANIAD POLISI DIOGELWCH, IECHYD, YR AMGYLCHEDD, A LLES GALWEDIGAETHOL PRIFYSGOL CAERDYDD

Rydym am fod yn un o brifysgolion mwyaf blaenllaw'r byd, sy'n rhagori o ran ymchwil ac addysg, ac a gaiff ei gyrru gan greadigrwydd a chwilfrydedd. Rydym am fod yn brifysgol sy'n bodloni ei rhwymedigaethau dinesig, diwylliannol, ac economaidd i Gaerdydd, Cymru a'r byd. Yn unol â hyn, rydym wedi datblygu systemau i fodloni ein rhwymedigaethau o ran diogelwch, iechyd, yr amgylchedd, a lles, ac wedi ymrwymo i weithredu'r systemau hyn.

Fel y corff cyflogi, y Cyngor sydd â'r cyfrifoldeb eithaf dros iechyd a diogelwch unigolion yn y Brifysgol, dros bawb y mae gweithgarwch y Brifysgol yn effeithio arnynt, a thros ddiogelu'r amgylchedd rhag gweithgarwch y Brifysgol, a chefnogi lles staff a myfyrwyr.

Yn ymarferol, mae'r Cyngor wedi dirprwyo'r awdurdod dros sicrhau y cydymffurfir â'i rhwymedigaethau i'r Is-Ganghellor. Mae'r Is-Ganghellor wedi dirprwyo'r awdurdod hwn i Ddirprwy Is-Gangellorion y Colegau ac i Brif Swyddog Gweithredol y Gwasanaethau Proffesiynol. Maen nhw wedi dirprwyo'r awdurdod hwn dros sicrhau y cydymffurfir â rhwymedigaethau'r Brifysgol o ran diogelwch, iechyd, yr amgylchedd, a lles ymhellach i Gofrestryddion, Penaethiaid Ysgolion a Phenaethiaid y Gwasanaethau Proffesiynol. Mae hyn yn gyson â'r modd y caiff cyfrifoldebau eraill eu dirprwyo yn y Brifysgol.

Er mwyn sicrhau bod ei rhwymedigaethau o ran diogelwch, iechyd, yr amgylchedd, a lles yn cael eu rheoli'n briodol, mae Prifysgol Caerdydd wedi sefydlu mecanweithiau ar gyfer cynllunio, gweithredu, gwirio ac adolygu rheolaeth a pherfformiad o ran diogelwch, iechyd, yr amgylchedd, a lles. Mae manylion y mecanweithiau hyn ar gael yn ei System Rheoli Diogelwch, Iechyd, yr Amgylchedd, a Lles. Mae'r system hon yn cefnogi ymrwymiad y Brifysgol i:

(i) *Ddarparu amgylchedd gweithio diogel ac iachus er mwyn atal anafiadau/iechyd gwael sy'n gysylltiedig â gwaith drwy gael gwared ar beryglon a lleihau risgiau.*
(ii) *Gwarchod yr Amgylchedd, gan gynnwys atal llygredd yn y gweithle.*
(iii) *Gwella perfformiad o ran diogelwch, iechyd, yr amgylchedd, a lles drwy osod ac adolygu amcanion diogelwch, iechyd, yr amgylchedd, a lles.*
(iv) *Bodloni rhwymedigaethau cydymffurfio o ran gofynion Diogelwch, Iechyd, yr Amgylchedd, a Lles y mae'r Brifysgol yn tanysgrifio iddynt mewn perthynas â'i pheryglon, agweddau, a lles yr unigolyn.*
(v) *Darparu'r adnoddau angenrheidiol i gyflawni'r Polisi hwn.*
(vi) *Ymgynghori â chynrychiolwyr staff a myfyrwyr a'u hannog i gymryd rhan.*

Bydd Prifysgol Caerdydd yn sicrhau y bydd yr ymrwymiadau yn ei Pholisi Diogelwch, Iechyd yr Amgylchedd, a lles yn cael eu hysgogi gan ei huwch-reolwyr, eu cyfleu i bob aelod o'r staff, ac ar gael yn gyhoeddus. Yn ogystal, bydd Prifysgol Caerdydd yn sicrhau bod y staff a'r myfyrwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau personol o ran diogelwch, iechyd a'r amgylchedd, a phwysigrwydd eu lles eu hunain, gan gynnwys eu dyletswydd i'w gilydd, a'u bod yn cael y lefel briodol o gyfarwyddyd a hyfforddiant i ymgymryd â'u gwaith mewn ffordd mor ddiogel, iach ac ystyriol i'r amgylchedd ag sy'n ymarferol bosibl.

Cadeirydd y Cyngor SB Palmer

Dyddiad: 20/03/2019

Is-Ganghellor

Dyddiad: 20 March 2019